CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Adroddiad Blynyddol Cyngor Llyfrau Cymru

*2023–24*



# *Gair gan ein Cadeirydd*

## Linda Tomos

Wel, mae blwyddyn arall wedi mynd heibio a llawer iawn o waith rhagorol wedi ei gwblhau gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Unwaith eto, mae'r partneriaethau rhwng y Cyngor, cyhoeddwyr, siopau llyfrau a llyfrgelloedd wedi llwyddo i gynhyrchu a hyrwyddo llyfrau o safon uchel yn y ddwy iaith er budd pobl Cymru. Mae'n braf nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda phrosiectau arloesol, fel y Grant Cynulleidfaoedd Newydd a Darllen yn Well, a hynny er mwyn annog ymgysylltiad a diddordeb ymhlith awduron a darllenwyr fel ei gilydd.

Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y Dirprwy Weinidog, Dawn Bowden AS, a'r berthynas gadarnhaol sydd wedi'i meithrin â gweision sifil Cymru Greadigol a MALD. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran fy nghyd Ymddiriedolwyr i gyd wrth ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu cyfraniad i lwyddiant gwaith y Cyngor. Mae cyfraniad a diddordeb y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles AS, hefyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth gefnogi perthynas y Cyngor Llyfrau ag ysgolion Cymru i annog pob plentyn i fwynhau darllen.

Yn dilyn proses gystadleuol iawn o benodiadau cyhoeddus, roeddwn yn falch iawn o groesawu Ruth Thomas a Meinir Ebbsworth i ymuno â'r Bwrdd. Mae'r ddwy'n dod â chyfoeth o arbenigedd yn ychwanegol at sgiliau'r Ymddiriedolwyr presennol, ac edrychaf ymlaen at gydweithio gyda nhw. Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Mrs Rajvi Glasbrook Griffiths am ei gwaith fel aelod o'r Bwrdd, gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Mae Rajvi wedi bod yn Ymddiriedolwr brwdfrydig a oedd bob amser yn barod i rannu ei phrofiad helaeth a'i harbenigedd i wella ein gwaith. Cawsom gyfle hefyd i ddiolch i Mererid Boswell sydd wedi cyflawni cymaint i sicrhau llwyddiant y Cyngor fel Pennaeth Cyllid a Busnes. Mae'r Bwrdd wedi elwa'n fawr o'i chyngor doeth a'i stiwardiaeth ofalus o faterion ariannol

a'r pensiwn dros y blynyddoedd. Fel Bwrdd, dymunwn yn dda iddi hithau.

Unwaith eto, mae'r uchafbwyntiau mor niferus, nid yw'n bosib eu crybwyll i gyd, er fy mod i'n gobeithio – wrth i chi ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn – y bydd ehangder y gwaith sydd wedi'i gyflawni yn creu cymaint o argraff arnoch chi ag y gwnaeth arnaf innau. Mae gan y Cyngor Llyfrau rôl hollbwysig i'w chwarae o ran darparu cyngor arbenigol, cynnal ansawdd y llyfrau a gefnogir a chysylltu llyfrau â darllenwyr, yn enwedig yn y maes digidol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r sefyllfa ariannol fregus yn sgil y toriad o 10.5% i'r gyllideb graidd wedi codi pryder a siom ymhlith Ymddiriedolwyr y Bwrdd. Rydym yn falch o'r gwaith rhagorol sydd wedi digwydd, ond ni fydd cynnydd yn bosib oni bai am yr adnoddau priodol i adeiladu ar ein gwasanaethau – a hynny ar gyfer y diwydiant cyhoeddi a phobl Cymru, ill dau.

Yn olaf, fel Cadeirydd, rwyf wedi elwa'n fawr o fewnbwn llawer o gydweithwyr. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n holl gefnogwyr, aelodau gwirfoddol y paneli, Cyfeillion y Cyngor Llyfrau, a'm cyd Ymddiriedolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i'n galluogi i gyflawni cymaint. Heb ymroddiad y staff sy'n sicrhau bod ein gwaith yn ffynnu o dan arweiniad Helgard a'n partneriaid niferus yn y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r diwydiant cyhoeddi, ni fyddem wedi llwyddo i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd wrth inni symud ymlaen.

Gyda fy nymuniadau gorau.

*Linda*



# *Bwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf*

## Helgard Krause, Prif Weithredwr

Does dim amheuaeth fod yna gwmwl dros ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon yn sgil derbyn y newyddion hynod siomedig y byddem yn wynebu toriad o 10.5% yng nghyllideb 2024/25.

Gan ein bod yn pryderu am y sefyllfa gyda'r gyllideb, roeddem wedi dewis peidio â llenwi rhai swyddi gwag, a phrofodd hynny i fod yn benderfyniad hollbwysig. Rydym yn ddiolchgar i'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr sydd wedi cydweithio â ni ynghylch sut i weithredu toriadau ar draws llinellau'r gyllideb. Mae'r partneriaethau adeiladol hyn yn amlygu pa mor hanfodol bwysig yw cyfathrebu a chydgynhyrchu ar gyfer ein sector.


Er gwaetha'r her arbennig honno, mae yna sawl rheswm i ddathlu wrth edrych yn ôl ar 2023/24. Llwyddwyd i gynnal dau ddigwyddiad pwysig. Ym mis Mehefin trefnwyd dathliad o brosiectau Cynulleidfaoedd Newydd yng Nghaerdydd gyda naw o'r rhai a gymerodd ran yn y prosiectau yn cyflwyno'u gwaith ac yn dangos yr effaith a gafodd y grant penodol hwn arnynt hwy ac ar eu cymunedau. Arweiniodd y llwyddiant hwn at gadarnhau'r drydedd rownd o gyllid gwerth £500,000 ym mis Mawrth 2024. Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad yn y Senedd gyda Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg ar y pryd, yn traddodi prif araith angerddol a theimladwy ynghylch cyrhaeddiad ac effaith y prosiect Caru Darllen Ysgolion. Braf yw gweld bod y prosiect yn parhau i gael effaith yn y tymor hirach drwy brosiectau cysylltiedig, megis Athrawon Caru Darllen a Charu Darllen ar Daith. Cafwyd presenoldeb o Gymru mewn dwy ffair lyfrau bwysig – cyflenwyd Ffair Lyfrau Llundain gan Cyhoeddi Cymru / Publishing Wales ym mis Ebrill 2023 ac eto ym mis Mawrth 2024 – a thrwy weithio'n agos gyda Cymru Greadigol, cymerodd y Cyngor ran yn y gynrychiolaeth o Gymru yn y digwyddiad cyhoeddi mwyaf yn y byd yn Frankfurt. Yn nes at adref, cymerwyd rôl arweiniol wrth sicrhau cyllid gan ARFOR i gefnogi cais Aberystwyth a Cheredigion i ddod yn Ddinas Llên UNESCO.

Roedd yn deimlad o falchder mawr – a hynny oherwydd ymdrechion diflino tîm y prosiect – bod y systemau Rheoli Cynnwys a warws wedi mynd yn fyw o'r diwedd, gydag ychydig iawn o darfu ar y gwasanaethau, ac yn y tymor canol, bydd yn ein galluogi i dyfu ein busnes dosbarthu.

Cyflenwodd cydweithwyr yn yr Adran Datblygu Cyhoeddi yr adolygiad buddsoddi cyntaf i alluogi cyhoeddwyr llyfrau Cymraeg i gyd-fynd yn agosach â'r trefniadau masnachfraint ar yr ochr Saesneg. Braf oedd gweld Gwasg y Bwthyn yn elwa ar y trawsnewidiad mawr a gyflawnwyd ganddynt i ddod yn gyhoeddwr rhaglen am y tro cyntaf. Hefyd, dyfarnwyd cyllid peilot i gefnogi dau gylchgrawn Cymraeg newydd oedd yn rhoi ffocws arbennig ar hanes a chwaraeon. Roedd rownd masnachfraint y cylchgronau Saesneg yn hynod o heriol o ganlyniad i gyfuniad o gyllid digyfnewid, costau cynyddol ac ymgeiswyr newydd, gyda'r panel yn penderfynu gwahodd ceisiadau am gylchgrawn llenyddol newydd pan adawyd peth cyllid heb ei ddosrannu ar ddiwedd y broses.

Mae gwaith yr Adran Llyfrau Plant wedi mynd o nerth i nerth, gyda nifer trawiadol o gynlluniau yn dwyn ffrwyth, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion adroddiad Siwan Rosser. Mae prosiect Rhyngom (Perthyn gynt) i helpu i ddatblygu empathi a llythrennedd yn ei anterth.

Yn fwy nag erioed, yn ystod y cyfnod cyllidebol mwyaf heriol hwn, rydym yn dra diolchgar i'n holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd mor hael. Rwyf yr un mor ddiolchgar am egni, creadigrwydd a gwydnwch pob un aelod o'r tîm gwych sy'n rhan o'r Cyngor Llyfrau ac sy'n ein helpu i ddarparu cymorth ac ymrwymiadau strategol sy'n helpu ein sector i ffynnu.



Llyfrau yn y Ganolfan Ddosbarthu

## Barod i fynd yn y Ganolfan Ddosbarthu

Roedd Mawrth 2024 yn garreg filltir i'r Ganolfan Ddosbarthu wrth i ni weithredu uwchraddiad mawr i'n systemau cyfrifiadurol a chwblhau prosiect pedair blynedd a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, gyda grant £750,000 gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan Ddosbarthu, sy'n gweithredu ar fodel nid-er-elw, yn gartref i dros hanner miliwn o lyfrau ar unrhyw adeg, ac mae ganddi drosiant blynyddol o ddeutu £3.1 miliwn. Mae'r Ganolfan wrth galon ein gwaith i gefnogi'r sector llyfrau yng Nghymru. Mae'n gwasanaethu siopau llyfrau a chyhoeddwyr ledled Cymru, yn sybsideiddio'r sector drwy ysgwyddo nifer o gostau (megis postio, dychweliadau a storio) y byddai dosbarthwyr masnachol yn eu trosglwyddo i gwsmeriaid.

Bydd y system newydd, KNK Publishing, yn ein galluogi ni i weithio'n fwy effeithiol, gyda mwy o wybodaeth sydd o ansawdd gwell ar flaenau ein bysedd, ac yn ein helpu ni i wella'n gwasanaethau i'r sector cyhoeddi. Bu tîm y Ganolfan yn gweithio'n agos gyda KNK (sydd yn arweinwyr yn y diwydiant) i ddatblygu, gweithredu a chyflwyno'r system newydd. Gwnaed y newid o'r hen system i'r newydd ym mis Mawrth 2024.




Ffair Lyfrau Frankfurt

## Cynrychioli Cymru ym mhrif ddigwyddiadau'r diwydiant yn Frankfurt a Llundain

Roeddem yn falch i gefnogi taith fasnach Llywodraeth Cymru i ddathlu'r gorau o lyfrau a chynnwys o Gymru, ac am Gymru, yn Ffair Lyfrau Frankfurt ym mis Hydref. Ffair gynnwys mwya'r byd yw Frankfurt, ac wrth ei mynychu bu'n gyfle i arddangos diwydiant cyhoeddi Cymru ar lwyfan ryngwladol, gyda 13 o gyhoeddwyr a phartneriaid o Gymru yn mynychu. Mae'r digwyddiad, a gynhelir dros bum diwrnod, wedi denu tua 215,000 o ymwelwyr ac mae tua 4,000 o gwmnïau o 95 gwlad wedi cynnal arddangosfeydd.

Trefnwyd presenoldeb Cymru yn Ffair Lyfrau Llundain ym mis Ebrill 2023, ac eto ym mis Mawrth 2024, gan Cyhoeddi Cymru / Publishing Wales, gyda chynrychiolaeth gan nifer o gyhoeddwyr o Gymru yn y ddau ddigwyddiad.

GRANT CYNULLEIDFAOEDD NEWYDD
NEW AUDIENCES GRANT

CREU NEWID PARHAOL

# *Grant Cynulleidfaoedd Newydd yn cyrraedd dros £1.5 miliwn i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi*

Wrth lansio Grant Cynulleidfaoedd Newydd yng ngwanwyn 2022, dechreuwyd gyda £186,000 ac roeddem yn gallu cefnogi 13 prosiect. Erbyn diwedd y flwyddyn honno roedd y buddsoddiad hwnnw gan Lywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, wedi tyfu i dros £600,000 a thros 40 prosiect i gryfhau ac i amrywio'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2023 cynhaliwyd dathliad yn y Tramshed yng Nghaerdydd i glywed yn uniongyrchol gan dderbynwyr y grant am eu prosiectau nhw, ac am effaith yr arian ar y bobl a oedd wedi cael cyfleoedd gwaith, dechrau mentrau a phartneriaethau newydd neu ddarganfod platfform i ddweud eu straeon.

Eleni, mae'r grant a'r prosiectau y mae'n eu cefnogi wedi mynd o nerth i nerth, ac roeddem wrth ein boddau i dderbyn £400,000 yn ychwanegol oddi wrth Cymru Greadigol er mwyn cynnal Cynulleidfaoedd Newydd 2 yn ystod 2023–24. Llwyddodd yr ail rownd ariannu hon i adeiladu ar rai o lwyddiannau blwyddyn gyntaf y grant, a gweld prosiectau'n datblygu am yr ail flwyddyn. Mae hefyd wedi ein galluogi i ariannu rhai mentrau newydd, sydd wedi dod â thalent a syniadau newydd i'r sector.

Ers ei lansio, mae'r Grant Cynulleidfaoedd Newydd wedi cefnogi ystod eang o brosiectau ledled Cymru. Dyma rai o brosiectau eleni:

### Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani

Comisiynodd y prosiect ysgrifennu creadigol ‘Gypsy Writers’ bedwar awdur Sipsiwn, Roma neu Deithwyr – sy’n newydd a heb gyhoeddi – i gymryd rhan mewn rhaglen fentora i ddatblygu awduron newydd gyda mentora un-i un, gweithdai rhyddiaith a barddoniaeth, a hyfforddiant.



Malachy Owain Edwards

### Gwasg y Bwthyn

Mae Malachy Owain Edwards, awdur y gyfrol *Y Delyn Aur*, wedi teithio i Barbados i ymchwilio i hanes ei deulu ar ochr ei dad-cu, tad ei fam, Kenrick, a ddaeth draw i Brydain yn y pumdegau fel un o genhedlaeth Windrush. Mae bellach yn llunio cyfrol yn y Gymraeg am y profiad.




### Gathering: Women of Colour on Nature

Cyhoeddwyd y flodeugerdd hon o draethodau personol, a olygwyd gan Durre Shahwar a Nasia Sarwar-Skuse, gan 404 Ink ym mis Chwefror 2024. Mae’n rhoi’r cyfle i fenywod o liw sy’n ysgrifennu yn y *genre* byd natur, lle maent yn cael eu tangynrychioli, i ddathlu byd natur trwy ystod eang o bynciau croestoriadol.

### Cynulleidfaoedd Newydd 3


Ym mis Mawrth 2024 roeddem yn falch iawn o gyhoeddi y byddai £500,000 arall ar gael yn 2024–25 i gynnal Cynulleidfaoedd Newydd 3, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn y Grant Cynulleidfaoedd Newydd ers 2022 i dros £1.5 miliwn. Mae manylion y prosiectau sydd wedi derbyn arian Cynulleidfaoedd Newydd hyd yn hyn i’w gweld ar ein gwefan llyfrau.cymru.



Meinir Ebbsworth



Ruth Thomas



Y Panel Pobl Ifanc gyda Llŷr Titus, Cadeirydd y Panel

## Croesawu dwy Ymddiriedolwr newydd i'n Bwrdd

Roeddem yn falch iawn i groesawu Meinir Ebbsworth a Ruth Thomas i'n Bwrdd yn Ionawr 2024.

Mae Meinir wedi gweithio ym myd addysg fel athrawes uwchradd, ymgynghorydd a Chyfarwyddwr Addysg. Bu'n awduro nifer o lyfrau ym maes Llythrennedd Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc. Bellach, mae'n Gyfarwyddwr Strategol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Ruth yn uwch-olygydd newyddion gyda BBC News, ac yn arwain tîm sy'n cynorthwyo newyddiadurwyr i ddefnyddio data i dyfu cynulleidfaoedd a dyfnhau'r berthynas gyda nhw – yn y DU ac ar draws y byd. Mae hi wedi gweithio yn adran newyddion BBC Cymru mewn amryw o swyddi gan gynnwys fel golygydd rhaglen *Newyddion* ar S4C, ac yn un o sylfaenwyr Cymru Fyw. Mae Ruth yn ddarllenwr brwd a rhedwr araf.

## Panel Pobl Ifanc

Roeddem wrth ein boddau pan gytunodd y naw aelod o'n Panel Pobl Ifanc i barhau ar y panel am flwyddyn arall. Mae'r panel, a sefydlwyd y llynedd, yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac rydym wedi elwa'n barod o'u trafodaethau, syniadau ac adborth ystyrlon a gonest. Mae'r panel wedi rhoi cyngor ar ein cynnwys digidol, yn ogystal â chefnogi nifer o brosiectau fel Gwobrau Tir na n-Og. Hoffem ddiolch o galon iddynt am eu holl waith caled a'u cyfraniad – yn arbennig yn ystod cyfnod mor brysur iddynt i gyd. Edrychwn ymlaen yn arw at gydweithio am flwyddyn arall.

## Diolch i'n holl wirfoddolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn rhoi'n hael eu hamser a'u harbenigedd i'r Cyngor Llyfrau am ddim. Maent ymhlith tua 60 o wirfoddolwyr sydd wedi cefnogi ein gwaith eleni, gydag aelodau'r is-bwyllgorau a phaneli ymgynghorol a beirniaid. Gyda'i gilydd, maent yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau annibyniaeth prosesau gwneud penderfyniadau a chraffu ar ein gwaith. Ni fyddem yn gallu cyflawni'r hyn a wnawn heboch chi. Diolch!







# Teitlau cylchgronau newydd

Ym mis Mehefin cyhoeddwyd lansiad dau gylchgrawn Cymraeg newydd sbon ar ôl i Wasg Carreg Gwalch a chwmni Golwg lwyddo i ennill grantiau i beilota dau deitl newydd.

Cylchgrawn hanes poblogaidd newydd gan Wasg Carreg Gwalch yw *Hanes Byw* a lansiwyd yn yr hydref, 2023. O dan olygyddiaeth Ifor ap Glyn, mae'r cylchgrawn yn plethu straeon o hanes ac archaeoleg, traddodiadau, llên gwerin a chelf i daflu golau ar faterion cyfoes.

Cylchgrawn digidol ar chwaraeon gan Golwg360 yw *Chwys: Cylchlythyr Campau Cymru*, sy'n cynnig sylwebaeth ar y byd chwaraeon o bersbectif Cymreig, yn cynnwys nifer o gampau gwahanol – o'r rhai prif ffrwd a phoblogaidd i chwaraeon llai amlwg.

Yn ystod 2023 cynhaliwyd proses dendro ar gyfer cyfnod nesaf masnachfraint pedair blynedd cylchgronau Saesneg. Dyfarnwyd grantiau i bedwar teitl, yn cynnwys cylchgrawn newydd *The Paper* sy'n derbyn y grant am y tro cyntaf. Y teitlau eraill a dderbyniodd arian oedd *Poetry Wales*, *Welsh Agenda* a *Nation.Cymru*.

Ym mis Mawrth 2024, ar ôl i rownd y fasnachfraint arwain at rywfaint o gyllideb heb ei dyrannu, hysbysebwyd cyfle tendr newydd ar gyfer cylchgrawn llenyddol Saesneg newydd sbon, gyda ffocws cryf ar ffuglen a rhyddiaith ffeithiol greadigol yn cynnwys adolygiadau a sylwebaeth gadarn. Rhagwelir y bydd rhifyn cyntaf y teitl newydd yn cael ei gyhoeddi tuag at ddiwedd 2024.




# Adnodd newydd sbon i gefnogi athrawon

Yng ngwanwyn 2024 lansiwyd pecyn adnoddau i athrawon, sy’n cynnwys manylion yr ystod o gymorth sydd ar gael i ysgolion gan yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen. Nod y *Canllaw Darllen er Pleser* yw i helpu athrawon ledled Cymru i hyrwyddo ac annog cariad at ddarllen. Mae pob ysgol gynradd ac uwchradd wedi derbyn copi caled o’r canllaw, ac mae hefyd ar gael fel adnodd ddigidol er ein gwefan.

Mae’r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am gefnogaeth benodol i athrawon, fel y cynllun peilot Athrawon Caru Darllen; heriau i ddysgwyr fel yr Ornest Lyfrau a Sialens Ddarllen yr Haf; a datblygiad teitlau newydd i helpu gyda’r cwricwlwm newydd a llesiant, fel Rhyngom.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adnoddau a chefnogaeth a gyflwynir yn y canllaw yn ysbrydoli athrawon a dysgwyr i ddarllen mwy, i ddarganfod llyfrau newydd ac i ddatblygu cariad gydol oes at ddarllen o fewn y dosbarth a thu hwnt.

# *Ein blwyddyn mewn rhifau 2023–24*

183
llyfr Cymraeg wedi eu cefnogi gan grantiau

103
llyfr Saesneg wedi eu cefnogi gan grantiau

£400,000
i gryfhau ac i amrywio'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru trwy Grant Cynulleidfaoedd Newydd 2

2,146kWh
o drydan adnewyddadwy wedi ei storio yn y batri, i'w ddefnyddio gan y Ganolfan Ddosbarthu

523
o siopau wedi eu gwasanaethu

27,232kWh
o drydan wedi ei gynhyrchu gan y paneli solar

831,497
o lyfrau wedi eu hanfon allan gan y Ganolfan Ddosbarthu

1,206
o filltiroedd busnes mewn cerbyd trydan

13,500
o lyfrau wedi eu hanfon i **90 safle** Banciau Bwyd a Families First

60
o wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a phaneli annibynnol

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Rhif yr elusen: 1192269
www.llyfrau.cymru

**CYNNWYS**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen 3–5

Crynodeb o Waith y Flwyddyn 5–7

Cyflawniad a Pherfformiad 8–9

Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol 10–11

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr 12

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 13–16

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol 17

Mantolen 18

Datganiad o'r Llif Arian 19

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 20–38

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

**Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen**

- Cefnogi a chynorthwyo'r diwydiant llyfrau yng Nghymru drwy ddyfarnu grantiau a thrwy ddulliau eraill;
- Cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunyddiau llenyddol ac artistig eraill, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau hysbys neu rai sydd hyd yma'n anhysbys), yn nwy iaith swyddogol Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ymwneud â Chymru;
- Trefnu digwyddiadau i gefnogi hyrwyddo llyfrau, darllen a'r sector llyfrau yn ei gyfanrwydd;
- Cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunyddiau eraill yng Nghymru.

**Datganiad Budd y Cyhoedd**

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd y Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales yw darparu budd i ddarllenwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

**Manylion Gweinyddol**

| | |
|---|---|
| Enw'r elusen | Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales |
| Rhif Elusen Gofrestredig | 1192269 |
| Cyfeiriad Cofrestredig | Castell Brychan<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 2JB |
| Archwilwyr | Llŷr James<br>Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig<br>25 Stryd y Bont<br>Caerfyrddin<br>SA31 3JS |
| Bancwyr | HSBC plc<br>Sgwâr Harford<br>Llanbedr Pont Steffan<br>Ceredigion<br>SA48 7DU |
| Prif Weithredwr | Helgard Krause |
| Brocer Buddsoddiadau | BlackRock<br>12 Throgmorton Avenue<br>London<br>EC2N 2DL |

### Ymddiriedolwyr

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Ymddiriedolwyr a hyd at 12 o aelodau. Etholir yr Ymddiriedolwyr i wasanaethu am gyfnod o 4 blynedd yn y lle cyntaf, gydag opsiwn o ail dymor o 4 blynedd. Caiff y Cadeirydd ei ethol yn flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yn yr haf lle mae'r aelodau'n derbyn y cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol.

**Yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2023/24 yw:**

| | |
|---|---|
| Mrs Linda Tomos | Cadeirydd |
| Mrs Rona Aldrich | Is-gadeirydd |
| Mr Alfred Oyekoya | Trysorydd |
| Yr Athro Jane Aaron | |
| Mrs Meinir Ebbsworth | Penodwyd 31/01/2024 |
| Mrs Rajvi Glasbrook Griffiths | Ymddiswyddo 31/03/24 |
| Mrs Alwena Hughes Moakes | |
| Ms Lowri Ifor | |
| Yr Athro Carwyn Jones | |
| Ms Ruth Thomas | Penodwyd 31/01/2024 |
| Yr Athro M. Wynn Thomas | |
| Dr Caroline Owen Wintersgill | |

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

**Cyfansoddiad**

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales. Trosglwyddwyd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol ar 1 Ebrill 2021.

**Y Cyngor a'i Bwyllgorau**

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penodi aelodau i is-bwyllgorau arbenigol sy'n adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae proses hysbysebu agored sydd yn deg a thryloyw, yn unol â'r arferion gorau, yn digwydd ar gyfer yr holl swyddi sydd ar gael ar y Bwrdd a'r is-bwyllgorau.

**Crynodeb o Waith y Flwyddyn**

Does dim amheuaeth fod yna gwmwl dros ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon yn sgil derbyn y newyddion hynod siomedig y byddem yn wynebu toriad o 10.5% yng nghyllideb 2024/25. Gan ein bod yn pryderu am y sefyllfa gyda'r gyllideb roeddem wedi dewis peidio â llenwi rhai swyddi gwag, a phrofodd hynny i fod yn benderfyniad holl bwysig. Er gwaethaf yr her arbennig honno, mae yna sawl rheswm i ddathlu wrth edrych yn ôl ar 2023/24. Llwyddwyd i gyflenwi dau ddigwyddiad pwysig: ym mis Mehefin trefnwyd Arddangosiad Cynulleidfaoedd Newydd yng Nghaerdydd; roedd yn ddigwyddiad hynod lwyddiannus, a thyrfa dda'n bresennol i weld 9 o'r rhai a gymerodd ran yn y prosiect yn cyflwyno'u gwaith ynghyd â darparu tystiolaeth o'r effaith a gafodd y grant penodol hwn arnynt hwy ac ar eu cymunedau. Arweiniodd y llwyddiant hwn at gadarnhau trydedd rownd o gyllid gwerth £500,000 ym mis Mawrth 2024.

Ym mis Tachwedd fe gynhaliwyd digwyddiad fin nos yn Senedd Cymru gyda Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg ar y pryd, yn traddodi prif araith angerddol a theimladwy ynghylch cyrhaeddiad ac effaith y prosiect #CaruDarllenYsgolion; braf yw gweld bod y prosiect yn parhau i gael effaith yn y tymor hirach drwy brosiectau cysylltiedig megis #AthrawonCaruDarllen ac Awduron ar Daith. Y flwyddyn ddiwethaf hon oedd y gyntaf ers sawl blwyddyn lle cafwyd presenoldeb o Gymru mewn dwy ffair lyfrau bwysig; cyflenwyd Ffair Lyfrau Llundain gan Cyhoeddi Cymru Publishing Wales ym mis Ebrill, a thrwy weithio'n agos gyda Cymru Greadigol cymerodd y Cyngor ran yn y gynrychiolaeth o Gymru yn y digwyddiad cyhoeddi mwyaf o'r cyfan, yn Frankfurt. Yn nes at adref, cymerwyd rôl arweiniol wrth sicrhau cyllid gan ARFOR i gefnogi cais Aberystwyth a Cheredigion i ddod yn Ddinas Llenyddiaeth UNESCO. Gydag ADNODD, menter newydd Llywodraeth Cymru, wedi ei sefydlu i gefnogi darparu adnoddau i ysgolion, aethom ati i drafod yn gynnar sut y gallem ddefnyddio strwythur presennol y Cyngor Llyfrau i gefnogi comisiynu llyfrau addysgol, ac rydym yn rhagweld y cytunir ar gytundeb cydweithredu ffurfiol yn 2024.

**Datblygiadau Busnes**

Gyda theimlad o falchder mawr – a diolch diffuant i ymdrechion diflino tîm y prosiect – y gwelwyd y systemau CMS a warws yn mynd yn fyw o'r diwedd, a hynny gyda dim ond ychydig o darfu ar y gwasanaethau. Fel y gellir ei ddisgwyl gyda phrosiect ar y raddfa yma, mae nifer o fân broblemau yn parhau i fod ag angen sylw, ond bydd y garreg filltir newydd a phwysig hon yn ein galluogi i edrych ymlaen yn hyderus at gyflawni ein gobeithion am y dyfodol, yn cynnwys sicrhau cyllid ar gyfer adeiladau newydd, mwy o faint, i gyflawni'r potensial am dwf sy'n perthyn yn ddiamheuol i'n helfen ddosbarthu. Un cam cyntaf pwysig oedd ennill busnes dosbarthu'r cyhoeddwr Graffeg fel eu hunig ddosbarthwr ledled y DU a chredwn y gallwn, gyda rhagor o le, ennill rhagor o gytundebau tebyg. Gydag effaith y prosiect #YsgolionCaruDarllen bellach yn pylu, mae'r trosiant wedi dychwelyd i'w lefelau blaenorol, ond cafwyd perfformiad cryf er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd heriol sy'n bodoli ledled Prydain.

**Datblygu Cyhoeddi: Uchafbwyntiau**
Gyda'r busnes bellach yn ôl i'w drefn arferol, cyflenwyd yr adolygiad buddsoddi cyntaf i alluogi cyhoeddwyr llyfrau Cymraeg i gyd-fynd yn agosach â'r trefniadau masnachfraint ar yr ochr Saesneg. Braf oedd gweld Gwasg y Bwthyn yn elwa ar y trawsnewidiad mawr a gyflawnwyd ganddynt i ddod yn gyhoeddwr rhaglen am y tro cyntaf. Hefyd, dyfarnwyd cyllid peilot i gefnogi dau gylchgrawn Cymraeg newydd oedd yn rhoi ffocws arbennig ar hanes a chwaraeon. Roedd rownd masnachfraint y cylchgronau Saesneg yn hynod heriol o ganlyniad i gyfuniad o gyllid digyfnewid, costau cynyddol ac ymgeiswyr newydd, gyda'r panel yn penderfynu gwahodd ceisiadau am gylchgrawn llenyddol newydd pan adawyd peth cyllid heb ei ddosrannu ar ddiwedd y broses.

Bydd datblygiad ac effaith bosibl Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus gennym, yn y gobaith y bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn darparu canllaw rheoleiddiol clir mewn perthynas â chynhyrchu cynnwys a hawlfraint deallusol.

Pleser oedd cael cadarnhad ar gyfer rownd arall o gyllid Darllen yn Well, gyda rhestr gwbl newydd yn canolbwyntio ar Dementia ac Alzheimer's. Da yw gweld effaith barhaus y Cyllid Cynulleidfaoedd Newydd, ond parhau mae'r her i gefnogi prosiectau teilwng dan amgylchiadau lle bo mwy a mwy o gystadleuaeth ac amodau ariannol tynnach.

Mae gwaith yr Adran Llyfrau Plant wedi mynd o nerth i nerth, gyda nifer trawiadol o gynlluniau newydd neu ar eu newydd wedd yn dwyn ffrwyth, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion adroddiad Siwan Rosser. Gyda phrosiect Rhyngom (gynt Perthyn) yn ei anterth, mae swyddogion bellach yn trafod syniadau am brosiectau newydd fydd yn cefnogi ysgolion tra hefyd yn canolbwyntio ar ddarllen er pleser.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
Yn y Cyngor Llyfrau, rydym yn cydnabod bod yr anghyfartaleddau strwythurol sy'n bodoli o fewn y gymdeithas ehangach yng Nghymru hefyd yn bodoli yn ein sector ni ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni cynrychiolaeth deg o fewn ein sefydliad ni a'r sector llyfrau yng Nghymru, fel ei gilydd. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, yr arweinwyr gweithredol, y rheolwyr a'r arweinwyr tîm yn deall bod sicrhau cyfleoedd yn gyfrifoldeb unigol a chyfunol, a'i fod wrth galon diwylliant ein sefydliad. Rydym wedi cynyddu'r amrywiaeth o fewn ein hisbwyllgorau a'n panelau beirniadu, ond mae yna fwy eto i'w wneud.

Yn benodol, rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r her o ddenu staff o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, gan ein bod wedi ein lleoli mewn ardal wledig o Gymru ac wedi ymrwymo i gynnal ein busnes o ddydd i ddydd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae eraill yn rhannu'r heriau hyn, ac ni chânt eu datrys gennym ni yn unig. Mae angen ymdrech gyfunol dros Gymru gyfan, ac rydym yn cydweithredu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i greu atebion fydd yn arwain at newid real a pharhaol. Fel prif gefnogwyr a chyllidwyr y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb dros yr effaith a gawn ar y bobl rydym yn eu cefnogi, ein partneriaid, ein gweithwyr, a'r gymdeithas ehangach. Mae ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'r holl benderfyniadau ariannol a gymerir gennym i helpu partneriaid i gyflenwi newid cadarnhaol a sicrhau cynrychiolaeth deg yn y cynnwys rydym yn ei ariannu. Rydym yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Materion Corfforaethol**
Gyda thristwch y ffarweliwyd â'r Pennaeth Busnes a Chyllid, oedd yn aelod allweddol o'r Tîm Rheoli Uwch, wedi iddi dderbyn swydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gyda chyllidebau cyfyng roedd yn amhosibl apwyntio ar yr un lefel, ond roeddem yn falch iawn o groesawu Rhian Davies o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i ymuno â'n tîm. Cwblhawyd yr ailstrwythuro olaf trwy lenwi dwy rôl newydd, sef Arweinydd Maes – Golygyddol (Dr Alaw Mai Edwards) ac Arweinydd Maes – Dylunio (Dafydd Owain), ac mae'n galonogol gweld mewnbwn di-oed a strategol y ddau aelod newydd o'r tîm.

Cynhaliwyd rownd lwyddiannus o recriwtio Ymddiriedolwyr, gyda dau aelod newydd yn ymuno â'r Bwrdd ym mis Ionawr; o ganlyniad, roedd modd i ymddiriedolwyr a drosglwyddwyd o'r strwythur cyfreithiol blaenorol ymddeol yn raddol o'r rôl.

Roedd newidiadau o fewn Llywodraeth Cymru'n golygu penodi gweinidog newydd i fod yng ngofal Cymru Greadigol, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n cydweithredu llwyddiannus ac adeiladu arno.

Mae Seiberddiogelwch yn parhau i fod yn bryder, a byddwn yn gweithio tuag at gyflawni statws Cyber Essentials.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein staff trwy gynnig cyfleoedd hyfforddi rheolaidd sy'n cyfuno hyfforddiant ar-lein ac yn y gweithle yn amrywio o sgiliau busnes, iechyd a diogelwch, a rheoli pobl, i iechyd meddwl yn y gwaith, ac ymwybyddiaeth o'r menopos. Dyma restr o'r hyfforddiant gwblhawyd yn ystod y flwyddyn: Google Analytics, ymwybyddiaeth menopôs, GDPR, Cyflwyniad i Ddiogelu Data ar gyfer y Sector Wirfoddol, Camau nesaf ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm a'i roi ar waith yng Nghymru, hyfforddiant i olygyddion Cymraeg ar lyfrau'r gyfres Amdani, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Sesiwn gyda Chronfa Bensiwn Dyfed, Hyfforddiant i'r 7 Cyhoeddwr Rhaglen ar hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Hyfforddiant i'r cyhoeddwyr Cymraeg ar brosiect Cam Cynnydd 3, Hyfforddiant i olygyddion llyfrau plant a noddir gan y Cyngor Llyfrau, Hyfforddiant i olygyddion llyfrau oeolion a noddir gan y Cyngor Llyfrau, Hyfforddiant ar system KNK.

Yn ogystal, rydym yn annog staff i wneud gwell defnydd o'r modiwl hyfforddiant a ddarperir ar BrightHR.

**Cyflawniad a Pherfformiad**

| **TARGEDAU ALLWEDDOL 2023/24** | | |
|---|---|---|
| | **2023/24 Targed** | **2023/24 Cyflawni** |
| Teipysgrifau – Adran Olygyddol | 170 | 131 |
| Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio | 110 | 50 |
| Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu | £4m gros<br>£2.64m net | £4.66m gros<br>£3.11m net |
| Lefel dyledwyr y Ganolfan | Dim mwy na 2% | 1% |
| Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein | £75,000 | £80,266 |

| TARGEDAU ALLWEDDOL 2023/24 – GRANTIAU CYHOEDDI | | |
|---|---|---|
| | **2023/24<br>Targed** | **2023/24<br>Cyflawni** |
| **Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)** | | |
| Nifer y teitlau a gyhoeddir | 133 | 133 |
| Cyfartaledd gwerthiant | 800 ar ôl 18 mis | 994 |
| Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg | 18 | 19 |
| Cyhoeddi prydlon yn unol â'r amserlen | 98% | 95% |
| **Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)** | | |
| Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir | 44 | 44 |
| Nifer y teitlau blaendal awdur a gyhoeddir | 15 | 13 |
| Grantiau Marchnata | 20 | 29 |
| Nifer y cylchgronau llenyddol | 5 | 6 |
| Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau llenyddol | Cyffredinol – 400<br>Aml-ffocws – 300<br>Ffocws unigol – 300 | Cyffredinol – 875<br>Aml-ffocws – 396<br>Ffocws unigol – 470 |
| Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen | 98% | 75% |

**Adolygiad Ariannol**

Derbyniwyd cyfanswm o £8.3m o incwm yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £10.4m yn 2022/23.

Roedd incwm y Ganolfan Ddosbarthu wedi elwa o werthiant Caru Darllen sydd wedi bod o gymorth o ran cynyddu'r elw gros. Mae prosiectau mawr wedi helpu i fanteisio ar y capasiti staff sydd ar gael, ond gyda'r cyllid yn sefyll yn ei unfan, ychydig iawn o gapasiti sydd i amsugno gweinyddiaeth prosiect i'r sefyllfa staffio bresennol yn y dyfodol.

O'r gwariant o £8.7m (o'i gymharu â £10m yn 2022/23), mae'r driniaeth o gyfalafu gwariant ar y system newydd sy'n gyfrifol i raddau helaeth am y diffyg o £374,524 (o'i gymharu â gwarged net o £396,857 yn 2022/23).

Mae buddsoddiadau'r Cyngor Llyfrau wedi cynyddu £190K (£185k am yr un cyfnod yn 2023) a buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn wedi cynyddu a gyda chyfraddau llog yn gwella, efallai y bydd angen edrych ar ddulliau eraill o gynhyrchu incwm o'r cyfalaf.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd yr asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £3.6m (2022/23: £3.9m). Mae'r gostyngiad i'w briodoli i amseru gwariant y cynllun cyfalaf.

**Polisi Arian Wrth Gefn**

Lluniwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl, a hefyd i ddelio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol hyn mewn nifer o gategorïau:

***Cronfeydd Anghyfyngedig***

- Cronfeydd Cyfalaf – £500,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl. Byddwn yn cynnal archwiliad o'r adeiladau dros y flwyddyn nesaf, gan flaenoriaethu lle mae angen gwariant pellach o'r gronfa yma.
- Cronfeydd Refeniw
  - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2024, roedd gweddill o £3,753,000 (2022/2023: gweddill £2,484,000). Mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu peidio â nodi hwn fel ased ar y fantolen, ond mae naratif llawn wedi'i ddarparu ar nodyn 22. Mae cyfraniadau'r cyflogwr wedi'u cytuno gyda Chronfa Bensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2027.
  - Y Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 4% o'r grant blynyddol (a fyddai'n golygu £150,400 yn 2023/24). Mae'r gronfa wedi cynyddu eleni i £178,005, o ganlyniad i swyddi gwag yn y tymor byr a llog ar falansau arian parod.
  - Y Ganolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (ac eithrio disgownt) (£326,926 ar sail ffigurau 2023/24). Maint y gronfa eleni yw £486,583, sydd yn uwch na'r targed oherwydd arian dros ben o gynllun Caru Darllen a bydd yn lleihau unrhyw golledion yn y dyfodol wrth i sylfaen costau gynyddu.

***Cronfeydd Penodol***

Wrth i ddatblygiadau system newydd gael ei chyfalafu, mae cronfa o £1,338,214 sy'n cyfateb i'r buddsoddiad o £1,276,573 mewn systemau newydd a gyflawnwyd hyd yma. Bydd dibrisiant yn digwydd i'r system newydd yn y flwyddyn gyfredol wrth iddi fynd yn fyw ym mis Mawrth 2024 a bydd yn cael ei ddibriso dros ddeng mlynedd.

***Cronfeydd Cyfyngedig***

Mae'r cronfeydd yma ar gyfer y defnydd a nodir yn nodyn 20 yn unig.

**Prif Noddwyr**

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth hon, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

**Polisi Buddsoddiadau**

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

**Gwirfoddolwyr**

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Gan na allwn roi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

**Trafodion Partïon Cysylltiol**

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y maent yn codi. Mae trafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 gan yr ymddiriedolwyr, ac fe'u gwelir yn nodyn 25 ar y fantolen ariannol.

**Rheoli Risg**

Mae'r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r mathau y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

**Rhagdybiaeth Busnes Hyfyw**

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

**Polisi Cyfle Cyfartal**

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, nac unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaeth mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored, ac mae penodiadau'n ddibynnol ar deilyngdod.

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:**

Yr Ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth; datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd yr Elusen yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr Elusen yn gymharol gywir ar unrhyw adeg, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Elusen ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Yn ôl dealltwriaeth yr Ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol ohoni;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ofal a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar safle we'r Elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

**ARCHWILWYR**

Yn y Cyfarfod Blynyddol, cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James.

Cymeradwywyd adroddiad yr Ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blynyddol, ar 19 Gorffennaf 2024.

........................................................................................ Mrs Linda Tomos

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru (yr 'elusen') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024, sef y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen yn ogystal â'r nodiadau perthnasol, yn cynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, 'Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2024 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd ganddi am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw;

- wedi eu paratoi yn unol â'r Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac

- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail ein barn**

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SRhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Gyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor ar Adroddiadau Ariannol ('FRC'), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

**Casgliadau yn ymwneud â hyfywdra**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn gywir wrth baratoi'r datganiadau ariannol ar y sail bod yr elusen yn hyfyw.

Ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennym, nid ydym wedi darganfod unrhyw ansicrwydd sylweddol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw unrhyw amheuaeth ar allu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw am gyfnod nid llai na deuddeng mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â hyfywdra wedi eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac oni bai ein bod yn datgan yn wahanol, nid ydym yn datgan unrhyw farn arni.

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio. Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth naill ai yn y datganiadau ariannol neu'r wybodaeth arall yn gamarweiniol. Os, ar sail ein gwaith, rydym o'r farn bod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Ein barn ni ar faterion eraill yn unol â Deddf Elusennau 2011**

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r hyn sydd yn y datganiadau ariannol; ac

- mae'r adroddiad blynyddol ac adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad**

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi darganfod unrhyw anghysonderau sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw sylw ar y materion canlynol y mae Ddeddf Elusennau 2011 yn mynnu ein bod yn eich hysbysu yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nad yw rhai manylion ynglŷn â thâl yr ymddiriedolwyr wedi eu datgelu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, nhw sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, os yw'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r gweithgareddau i ben, neu nad oes dewis ganddynt ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Fe'n penodwyd yn archwilwyr dan Ddeddf Elusennau 2011 (adran 144) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoleiddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol, yn deillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio dulliau gweithredu yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddadlennu camddatganiadau sylweddol o ran afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae'n dulliau gweithredu yn ein galluogi i ddadlennu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant, nodwyd bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â thorri egwyddorion rheoleiddiol y Deyrnas Unedig, fel y rheiny a reolir gan y Comisiwn Elusennau, ac ystyriwyd i ba raddau y byddai peidio â chydymffurfio yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, megis Deddf Elusennau 2011. Aseswyd cymhellion a chyfleoedd o ran camddefnydd twyllodrus o'r datganiadau ariannol gan y tîm rheoli (gan gynnwys y risg o fynd y tu hwnt i reolaeth ariannol), a phenderfynwyd bod y prif risgiau yn gysylltiedig â throsglwyddo'r asedau a'r dyledion o'r Elusen i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd ac amseru cydnabyddiaeth o incwm a gwariant grant i ystumio perfformiad ariannol. Mae'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r tîm rheoli, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll;
- Adolygu gohebiaeth allweddol gyda'r Comisiwn Elusennau yn ymwneud â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion perthnasol cyfarfodydd y Bwrdd;
- Dethol sampl o drafodion a'u holrhain yn ôl i'r dogfennau perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn drafodion busnes *bona fide*; a
- Dethol sampl o incwm grantiau a'i olrhain yn ôl er mwyn sicrhau bod y gwariant perthnasol wedi ei gynnwys yn yr un cyfnod ariannu;
- Sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer nodi'r driniaeth gywir o incwm fel y'i cyfyngir neu a ddynodwyd yn cael eu gweithredu'n gywir ar gyfer unrhyw gyllid newydd;
- Adolygu prisiad y gronfa bensiwn, gan sicrhau bod y driniaeth yn unol ag FRS 102 adran 28.22 ynghylch cydnabod ased cynllun buddion diffiniedig; a
- Llunio dulliau archwilio i ymgorffori cydnabyddiaeth o'r hyn sy'n anrhagweladwy ynghylch natur, amseru neu hyd a lled ein profion;
- Adnabod trafodion mawr neu anarferol i sichrau ein bod wedi deall y rhesymeg y tu ôl iddynt ac wedi cytuno eu bod yn briodol; a
- Adnabod cofnodion dyddlyfrau, i sicrhau ein bod wedi deall y rhesymeg y tu ôl iddynt ac wedi cytuno eu bod yn briodol.

Mae cyfyngiadau anorfod yn rhan gynhenid o'r dulliau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â ddeddfau a rheoliadau pan

nad oes cysylltiad agos rhyngddynt hwy a digwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Fel rhan o'r archwiliad, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigiaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad; llunio a gweithredu dulliau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a sicrhau tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol ac yn addas i seilio ein barn arni. Mae'r risg o beidio â dod o hyd i achos o gamddatgan tystiolaeth oherwydd twyll yn uwch nag un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor deunydd yn fwriadol, camliwio, neu fynd y tu hwnt i reolaeth fewnol.
- Sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio dulliau archwilio sy'n addas i'r amgylchiadau, ond nid i bwrpas lleisio barn ar effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol.
- Gwerthuso addasrwydd y polisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd, ynghyd â rhesymoldeb cyfrifon a amcangyfrifir a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan yr ymddiriedolwyr.
- Cadarnhau ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar y sail fod yr elusen yn hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a oes ansicrwydd sylweddol ai peidio mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw. Os penderfynwn fod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae'n rhaid i ni dynnu sylw yn adroddiad yr archwilwyr at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r datgeliadau'n annigonol, rhaid i ni addasu ein barn. Seilir ein casgliadau ar dystiolaeth yr archwiliad hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi i'r elusen ddirwyn i ben fel elusen hyfyw.
- Gwerthuso holl gyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion ariannol a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n gyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am reoli ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol a wneir ganddo, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod ein harchwiliad.

**Defnydd o'n hadroddiad**

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Deddf Elusennau 2011. Ymgymerwyd â'r gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan yn adroddiad yr archwilwyr, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un ond yr elusen ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am unrhyw farn a ffurfiwyd gennym.

B.W. Vaughan ............ DYDDIAD: 19/7/2024

BETHAN VAUGHAN
Prif Archwiliwr Statudol
Ar gyfer ac ar ran
LLŶR JAMES Cyf.
Archwilwyr Statudol

## CYNGOR LLYFRAU CYMRU

### DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Penodol | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2024 | Cyfanswm 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm drwy weithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 3 | 1,129,278 | 130,000 | 3,419,323 | **4,678,601** | 5,688,167 |
| Grantiau Eraill | 4 | – | – | 226,807 | **226,807** | 146,421 |
| Incwm o Adrannau | 5 | 216,069 | – | – | **216,069** | 199,811 |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | | | | | |
| Canolfan Ddosbarthu | 9 | 3,162,094 | – | – | **3,162,094** | 4,373,598 |
| Buddsoddiadau | 5 | – | – | 4,035 | **4,035** | 4,948 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir** | | **4,507,441** | **130,000** | **3,650,165** | **8,287,606** | 10,412,945 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | | | |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Grantiau wedi eu dosbarthu | 6/7 | – | – | 2,600,722 | **2,600,722** | 2,600,722 |
| Prosiectau penodol | | – | – | 993,902 | **993,902** | 1,253,388 |
| Gwariant elusennol | 8 | 1,322,294 | 256,772 | 353,920 | **1,932,986** | 1,986,019 |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | | | | | |
| Canolfan Ddosbarthu | 9 | 3,132,884 | 6,590 | – | **3,139,474** | 4,175,959 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 10 | **4,455,178** | **263,362** | **3,948,544** | **8,667,084** | 10,016,088 |
| **Adnoddau net a dderbynnir cyn trosglwyddiadau** | | **52,263** | **(133,362)** | **(298,379)** | **(379,478)** | 396,857 |
| **Enillion / (Colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | | |
| Ennill / (Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant | 22 | – | – | – | – | 2,861,000 |
| Symudiad ar y buddsoddiadau | 14 | – | – | 4,954 | **4,954** | (8,150) |
| Trosglwyddiad rhwng cronfeydd | | 4,034 | – | (4,034) | **–** | – |
| | | | | | | 2,852,850 |
| **Symudiadau net yn y cronfeydd** | 23 | **56,297** | **(133,362)** | **(297,459)** | **(374,524)** | 3,249,707 |
| Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | | 1,108,291 | 1,471,576 | 1,380,444 | **3,960,311** | 710,604 |
| **Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | 18–20 | **1,164,588** | **1,338,214** | **1,082,985** | **3,585,787** | 3,960,311 |

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Ymddiriedolwyr yr Elusen yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigurau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi bod sefyllfa Cronfa Bensiwn Dyfed y tu hwnt i reolaeth yr elusen.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 38 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**MANTOLEN ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2024**

| | **Nodyn** | **2024** | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Eiddo parhaol | 13 | | **1,420,150** | | 988,173 |
| Buddsoddiadau | 14 | | **190,328** | | 185,374 |
| | | | **1,610,478** | | 1,173,547 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 15 | **498,082** | | 499,889 | |
| Stoc y Ganolfan Ddosbarthu | | **123,021** | | 242,384 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 16 | **2,862,863** | | 4,545,760 | |
| | | **3,483,966** | | 5,288,033 | |
| **Credydwyr:** Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 17 | **1,508,657** | | 2,501,269 | |
| **Asedau cyfredol net** | | | **1,975,309** | | 2,786,764 |
| **Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol** | | | **3,585,787** | | 3,960,311 |
| **Cronfa Bensiwn** | 22 | | **–** | | – |
| | | | **3,585,787** | | 3,960,311 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Anghyfyngedig | 18 | **1,164,588** | | 1,108,291 | |
| Cronfa Bensiwn | 22 | **–** | | – | |
| Anghyfyngedig yn dilyn addasiad pensiwn | 18 | | **1,164,588** | | 1,108,291 |
| Penodol | 19 | | **1,338,214** | | 1,471,576 |
| Cyfyngedig | 20 | | **1,082,985** | | 1,380,444 |
| | | | **3,585,787** | | 3,960,311 |

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr a Phrif Weithredwr y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2024 a llofnodwyd ar eu rhan gan y canlynol:

LINDA TOMOS Cadeirydd

ALFRED OYEKOYA Trysorydd

HELGARD KRAUSE Prif Weithredwr

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024**

| | Nodyn | **2024** | 2023 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| ***Llif arian yn deillio o weithgareddau gweithredu*** | | | |
| Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu | 24 | **(1,682,897)** | 3,329,963 |
| Arian ar ddechrau'r flwyddyn | | **4,545,760** | 1,215,797 |
| Arian ar ddiwedd y flwyddyn | 24 | **2,862,863** | 4,545,760 |

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

**1. Polisïau Cyfrifo**

Nodir isod y prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, a'r dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd a ddilynwyd, wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

a. **Sail y paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (Elusennau SORP (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl y gost hanesyddol neu werth y trafodiad, oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifo perthnasol.

b. **Stoc**

Dangosir y stoc ar yr isaf o'r gost neu'r pris gwerthadwy net. Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant. Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o'r gost gwaredu.

c. **Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol**

Ar y fantolen, mae gan Gyngor Llyfrau Cymru falans dros ben ar y Fantolen. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod yr Elusen, ar y sail yma, yn fusnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon ar sail y rhagdybiaeth fod yr elusen yn gallu parhau i weithredu fel busnes hyfyw, rhywbeth y mae'r ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn briodol.

ch. **Costau pensiwn**

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Gyda mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2014, dangosir yr atebolrwydd hwn yn llawn ar y Fantolen. Caiff yr addasiadau i'r datganiadau ariannol yn dilyn yr addasiad hwn eu dangos yn nodyn 18, gyda'r diffyg pensiwn llawn yn cael ei ddangos yn nodyn 22.

d. **Buddsoddiadau**

Cofnodir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad.

dd. **Asedau sefydlog**

Nodwyd asedau sefydlog gwirioneddol ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig. Darperir ar gyfer dibrisiant yn ôl cyfraddau a amcangyfrifwyd i ddileu'r gost yn gyson dros y cyfnod y disgwylir i'r ased wasanaethu'n ddefnyddiol, llai yr amcangyfrif o'r gwerth terfynol, fel a ganlyn:

- Cyfrifiaduron ac offer eraill – dros 10 mlynedd (ar ôl cwblhau)
- Darnau gosod a gosodiadau – dros 5 mlynedd
- Cerbydau modur – 5 mlynedd

Nid oes gostyngiad yng ngwerth y tir a'r adeiladau rhydd-ddaliad, gan fod y gwerth gweddilliol yn uwch na'r gwerth ar y Fantolen.

e. **Grantiau sy'n daladwy**

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo goblygiad cytundebol yn bodoli, er gwaethaf y ffaith y gallant gael eu talu mewn cyfnodau eraill yn y dyfodol.

f. **Adnoddau a dderbynnir**

Caiff adnoddau a dderbynnir eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo gan yr Elusen hawl i'r incwm, ac y gellir mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r polisïau penodol isod yn berthnasol i wahanol gategorïau o incwm:

- Grantiau: rhoddir cyfrif am y rhain pan fyddant yn gysylltiedig â pherfformiad ac amcanion penodol, gan fod yr Elusen yn ennill yr hawl i gael ei hystyried yn ôl ei pherfformiad. Pan dderbynnir incwm cyn iddo gael ei gydnabod, caiff ei ddal yn ôl a'i gynnwys gyda chredydwyr. Lle bo hawl yn digwydd cyn y derbynnir yr incwm, caiff yr incwm ei gronni. Cyfrifir grantiau cyfalaf fel incwm cyn gynted ag y bydd modd eu derbyn.
- Incwm Masnachu: bydd incwm a godir trwy weithredu'r Ganolfan Ddosbarthu dan reolaeth yr Elusen yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo ymrwymiad cytundebol yn bodoli.
- Cymynroddion: hawl yw'r cyntaf o ddau beth – naill ai bod yr Elusen yn cael ei hysbysu o ddosraniad a fydd yn digwydd yn fuan, neu bod y gymynrodd yn cael ei derbyn.

ff. **Treth**

O ganlyniad i'w statws elusennol, nid oes angen i'r Elusen dalu treth gorfforaeth.

## 2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Y gwarged am y flwyddyn ar ôl tynnu'r canlynol:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Costau banc | **10,644** | 10,415 |
| Ffi'r Archwilwyr | **7,800** | 7,800 |
| Dibrisiant | **154,487** | 30,907 |

## 3. Grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| **Cymru Greadigol** | **£** | £ |
| Grant craidd | **1,129,278** | 1,129,278 |
| Grantiau Cyhoeddi i'w dosbarthu | **2,600,722** | 2,600,722 |
| Grant cyfalaf | **130,000** | 557,000 |
| Grant Cynulleidfaoedd Newydd | **500,000** | 400,000 |
| Cronfa Costau Byw | **–** | 500,000 |
| Cyllid ar gyfer Ffair Lyfrau Llundain | **–** | 80,000 |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer cylchgronau | **100,000** | 135,000 |
| **Adran y Gymraeg mewn Addysg** | | |
| Prosiect llyfrau i ysgolion | **–** | – |
| Cyllido catalog | **4,999** | – |
| Prosiect E-lyfrau | **–** | – |
| Prosiect Iaith Arwyddo (BSL) | **–** | – |
| Prosiect Rhyngom (Perthyn gynt) | **9,747** | 17,280 |
| **Adran Addysg** | | |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | **140,000** | 140,000 |
| **Is-adran Diwylliant** | | |
| Cynllun Darllen yn Well | **43,477** | 24,963 |
| Cynllun Hyrwyddo Darllen | **20,378** | 49,893 |
| Cynllun Cwpan y Byd (Tîm Cymru 22) | **–** | 54,031 |
| | **4,678,601** | 5,688,167 |

## 4. Grantiau Eraill

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Gŵyl Ddarllen Cheltenham | **–** | 1,500 |
| Partneriaid Dinas Llên UNESCO | **10,000** | – |
| The Reading Agency | **216,807** | 144,921 |
| | **226,807** | 146,421 |

## 5. Incwm – Adrannau Eraill a Buddsoddiadau

| | | **2024** | 2023 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | **£** | £ |
| Golygu | | **16,403** | 17,774 |
| Dylunio | | **16,500** | 13,456 |
| Cyfathrebu a Marchnata | | **88,393** | 87,810 |
| Gwerthu a Gwybodaeth | | **52,955** | 53,956 |
| Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen | **3,000** | | |
| Incwm Buddsoddiadau | **4,035** | | |
| | | **7,035** | 7,948 |
| Incwm amrywiol | | **38,817** | 21,137 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | |
| Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen | | **–** | 2,678 |
| | | **220,103** | 204,759 |

## 6. Gwariant – Grantiau Cyhoeddi

| | Nodyn | **2024** | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | | £ | £ |
| Grantiau tuag at lyfrau | 7a | **437,992** | 438,048 |
| Grantiau awduron a darlunwyr | | **339,304** | 368,718 |
| Cynllun penodiadau a hyfforddiant | 7b | **230,854** | 218,851 |
| Grantiau tuag at gylchgronau | 7c | **382,250** | 388,875 |
| Arian i'r wasg Gymraeg | 7ch | **200,000** | 217,145 |
| Grantiau tuag at farchnata | | **47,463** | 35,360 |
| Partneriaethau ac ymchwil | | **–** | 1,550 |
| Grantiau i lyfrwerthwyr | | **24,319** | 27,503 |
| *Prosiect llyfrau gradd ganol* | | **24,000** | – |
| Saesneg | | | |
| Grantiau tuag at lyfrau | 7d | **268,772** | 266,924 |
| Grantiau tuag at gylchgronau | 7dd | **181,630** | 147,900 |
| Grantiau tuag at farchnata | | **76,655** | 88,529 |
| Cynllun penodiadau | 7e | **119,600** | 108,500 |
| Grantiau i Awduron | | **54,900** | 82,357 |
| Y Clasuron | | **3,800** | 1,450 |
| Hyfforddiant | | **250** | – |
| Cyhoeddi Cymru Publishing Wales | | **3,000** | 3,000 |
| Costau gweinyddol | | **205,933** | 206,012 |
| Cyfanswm Grantiau Cyhoeddi | | **2,600,722** | 2,600,722 |

Nid yw'r uchod yn cynnwys grantiau cyfyngedig untro (Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd a Grant Costau Byw) a ddosbarthwyd i'r cyhoeddwyr sydd wedi'u cynnwys yn nodyn 20 ar y datganiad ariannol.

## 7. Grant fesul cyhoeddwr

| 7a. Cyhoeddwyr Cymraeg – Grantiau i lyfrau | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Y Lolfa | **101,315** | 127,283 |
| Gwasg Carreg Gwalch | **93,027** | 107,416 |
| Gwasg y Dref Wen | **54,850** | 45,400 |
| Rily | **45,725** | 47,600 |
| Atebol | **41,278** | 38,050 |
| Gwasg y Bwthyn | **36,790** | 12,390 |
| Cyhoeddiadau Barddas | **24,520** | 29,500 |
| Llyfrau Broga | **16,185** | 5,885 |
| Cyhoeddiadau'r Gair | **5,027** | 5,100 |
| Graffeg | **3,855** | 3,774 |
| Urdd Gobaith Cymru | **3,000** | – |
| Firefly | **3,000** | 2,980 |
| Gwasg Prifysgol Cymru | **3,000** | 1,500 |
| Dalen Newydd | **2,200** | – |
| Honno | **1,425** | 1,310 |
| Cara | **1,475** | – |
| Dalen Llyfrau | **–** | 5,500 |
| O'r Pedwar Gwynt | **–** | 3,000 |
| Cyhoeddiadau Modern | **–** | 860 |
| Cost gwerthuso | **1,320** | 500 |
| | **437,992** | 438,048 |

| 7b. Cyhoeddwyr Cymraeg – Cynllun Penodiadau | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Y Lolfa | **70,951** | 80,284 |
| Gwasg Carreg Gwalch | **46,494** | 42,204 |
| Rily | **26,832** | 26,832 |
| Gwasg y Bwthyn | **24,480** | 24,480 |
| Cyhoeddiadau Barddas | **15,180** | 15,180 |
| Atebol | **15,116** | 15,116 |
| Cyhoeddiadau'r Gair | **6,752** | 6,752 |
| Hyfforddiant | **25,049** | 8,003 |
| | **230,854** | 218,851 |

| **7c. Cyhoeddwyr Cymraeg – Cylchgronau a gefnogwyd** | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Barn | **90,000** | 69,000 |
| Golwg | **85,000** | 79,000 |
| O'r Pedwar Gwynt | **35,000** | 36,750 |
| Cip | **20,000** | 39,000 |
| Wcw | **28,000** | 30,750 |
| Y Cymro | **29,000** | 26,900 |
| Barddas | **24,000** | 21,000 |
| Lysh | **17,000** | 21,750 |
| Lingo Newydd | **18,000** | 22,500 |
| Cara | **15,000** | 11,250 |
| Y Selar | **12,000** | 11,250 |
| Y Wawr | **6,250** | 6,000 |
| Llafar Gwlad | **–** | 5,250 |
| Y Traethodydd | **–** | 4,000 |
| Cristion | **2,500** | 2,000 |
| Fferm a Thyddyn | **–** | 1,125 |
| Costau'r panel asesu | **500** | 1,350 |
| | **382,250** | 388,875 |

| **7ch. Cyhoeddwyr Cymraeg – Cylchgronau a gefnogwyd** | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Golwg | **200,000** | 150,000 |
| Newsquest | **–** | 66,145 |
| Costau panel | **–** | 1,000 |
| | **200,000** | 217,145 |

**7d. Cyhoeddwyr Saesneg – Grantiau i lyfrau**

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Parthian | **50,100** | 37,575 |
| Firefly | **49,850** | 28,410 |
| Seren | **38,850** | 95,000 |
| Honno | **36,000** | 26,991 |
| Gwasg Prifysgol Cymru | **29,642** | 27,340 |
| Lucent Dreaming | **24,000** | – |
| Y Lolfa | **16,600** | 20,283 |
| Graffeg | **12,000** | |
| Gwasg Carreg Gwalch | **8,700** | 23,900 |
| Pantolwen Press | **2,000** | – |
| Culture Matters | **1,030** | – |
| New Welsh Review | **–** | 2,200 |
| 404 Ink | **–** | 3,000 |
| I-Pigeon | **–** | 2,225 |
| | **268,772** | 266,924 |

### 7dd. Cyhoeddwyr Saesneg – Cylchgronau a gefnogwyd

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| New Welsh Review | **45,000** | 33,750 |
| Planet | **45,000** | 45,000 |
| Wales Arts Review | **27,500** | 20,625 |
| Poetry Wales | **20,000** | 15,000 |
| Nation.Cymru | **20,000** | 15,000 |
| The Welsh Agenda & Click on Wales | **17,500** | 13,125 |
| Grantiau cylchgronau bach | **4,500** | 5,400 |
| Costau eraill i werthuso cylchgronau | **2,130** | – |
| | **181,630** | 147,900 |

### 7e. Cyhoeddwyr Saesneg – Cynllun Penodiadau

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Parthian | **25,300** | 23,000 |
| Honno | **22,500** | 21,500 |
| Seren | **19,000** | 7,700 |
| Firefly | **17,000** | 15,000 |
| Gwasg Prifysgol Cymru | **8,000** | 15,000 |
| Graffeg | **8,000** | 7,800 |
| Lucent Dreaming | **8,000** | – |
| Y Lolfa | **7,500** | 15,000 |
| Gwasg Carreg Gwalch | **4,300** | 3,500 |
| | **119,600** | 108,500 |

## 8. Gwariant Adrannau

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Costau** | | |
| Golygu | **86,433** | 117,356 |
| Dylunio | **105,610** | 109,989 |
| Cyfathrebu a Marchnata | **238,459** | 230,001 |
| Gwerthu | **197,535** | 259,210 |
| Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmer | **264,481** | 238,714 |
| Llyfrau Plant | **85,621** | 77,145 |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | **160,378** | 167,641 |
| Cynllun Darllen yn Well | **193,542** | 155,420 |
| Gwariant Adnewyddu a Chyfalaf a dibrisiant | **256,772** | 48,414 |
| Costau cefnogi | **337,134** | 316,350 |
| ***Costau anarferol*** | | |
| Darpariaeth ar gyfer tâl gwyliau | **7,021** | (12,221) |
| Symudiad yn Rhwymedigaeth y Cynllun Pensiwn | **–** | 278,000 |
| | **1,932,986** | 1,986,019 |

## 9. Incwm a Gwariant y Ganolfan Ddosbarthu

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| ***Incwm*** | **3,162,094** | 4,373,598 |
| | | |
| ***Costau*** | | |
| Llyfrau a brynwyd | **2,485,623** | 3,519,431 |
| Cyflogau, yswiriant, pensiwn | **366,375** | 352,107 |
| Costau rhedeg cerbydau | **5,617** | 5,641 |
| Teithio a chynhaliaeth | **–** | 397 |
| Cludiant, post, deunydd pacio | **152,471** | 170,212 |
| Prynu, a chynnal a chadw offer | **49,562** | 43,164 |
| Rhent, trethi, gwres, golau, ffôn | **18,550** | 12,432 |
| Yswiriant, cynnal a chadw adeiladau | **16,912** | 16,293 |
| Argraffu, papur | **4,596** | 4,596 |
| Disgownt a ganiateir | **21,484** | 28,222 |
| Mân wariant | **16,493** | 16,320 |
| Drwgddyledion | **(2,701)** | 564 |
| Dibrisiant | **6,590** | 6,590 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **3,139,474** | 4,175,959 |
| | | |
| Elw /(Diffyg) am y flwyddyn | **22,620** | 197,639 |

## 10. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

| | **Costau Staff** | **Costau Eraill** | **Grantiau** | **Cyfanswm 2024** | Cyfanswm 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | £ |
| Costau elusennol uniongyrchol | **1,588,389** | **4,683,906** | **2,394,789** | **8,667,084** | 10,016,088 |

## 11. Staff

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Cyflogau | **1,213,184** | 1,275,679 |
| Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr | **123,492** | 127,566 |
| Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | **251,713** | 249,031 |
| Diffyg o'r gorffennol yn y Pensiwn | **–** | 80,000 |
| Cyfanswm cyflogau | **1,588,389** | 1,732,276 |
| | | |
| Cyfartaledd nifer y staff a gyflogid yn ystod y flwyddyn (Swyddi llawn-amser) | **36** | 39 |

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth 1 aelod o'r staff (2023 – 1) ennill, gan gynnwys yswiriant cenedlaethol, rhwng £70,000 a £80,000.

**Costau staff allweddol**

Ynghyd â'r Prif Weithredwr, mae 6 phennaeth adran (2023 – 6) sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli, a gwnaethpwyd y taliadau isod iddynt yn ystod y flwyddyn:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Cyflogau | **305,957** | 250,229 |
| Treuliau Nawdd Cymdeithasol | **34,690** | 29,952 |
| Costau Pensiwn | **60,273** | 49,451 |
| | **400,920** | 329,632 |

## 12. Tâl i'r ymddiriedolwyr

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw dâl gan eu bod yn cael eu penodi gan awdurdodau neu gyrff allanol, ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn tâl. Y swm am ddigolledu treuliau (teithio i gyfarfodydd ayyb) yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd £518 (2023: £1,146). Y swm am ddigolledu costau teithio aelodau is-bwyllgorau'r Bwrdd oedd £2,288 (2023: £2,053).

## 13. Asedau Sefydlog

| | **Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol** | **Cyfrifiaduron ac offer eraill** | **Celfi a mân offer** | **Cerbydau modur** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Gwerth** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 253,008 | 690,109 | 55,851 | 68,736 | 1,067,704 |
| Ychwanegiadau | – | 586,464 | – | – | 586,464 |
| Costau gwaredu | – | – | – | – | – |
| ar 31 Mawrth 2024 | **253,008** | **1,276,573** | **55,851** | **68,736** | **1,654,168** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | **–** | **16,308** | **35,729** | **27,494** | 79,531 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | 131,734 | 9,006 | 13,747 | 154,487 |
| Costau gwaredu | – | – | – | – | – |
| ar 31 Mawrth 2024 | **–** | **148,042** | **44,735** | **41,241** | **234,018** |
| | | | | | |
| **Gwerth net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | **253,008** | **1,128,531** | **11,116** | **27,495** | **1,420,150** |
| | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 253,008 | 673,801 | 20,122 | 41,242 | 988,173 |

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

## 14. Buddsoddiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd gwerth y buddsoddiadau hyn ar y farchnad yn £190,328 (2023 – £185,374).

Mae'r buddsoddiadau'n cael eu dal gan gwmni BlackRock yng nghronfeydd Charinco a Charinshare sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain.

Cydnabyddir y buddsoddiadau yn ôl eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen. Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu hailbrisio, a chydnabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Dadansoddiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

## 15. Dyledwyr

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Dyledwyr masnachol | **269,970** | 180,776 |
| Dyledwyr eraill | **215,382** | 307,405 |
| Blaendaliadau | **12,730** | 11,708 |
| | **498,082** | 499,889 |

Mae pob swm a nodir yn ddyledus mewn llai na blwyddyn.

## 16. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Tocynnau Llyfrau | **734,902** | 890,103 |
| Eraill | **2,127,961** | 3,655,657 |
| | **2,862,863** | 4,545,760 |

## 17. Credydwyr: Symiau'n dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Credydwyr masnachol | **109,256** | 1,631,555 |
| Tocynnau Llyfrau | **580,366** | 743,672 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | **53,830** | – |
| Credydwyr eraill | **765,205** | 126,042 |
| | **1,508,657** | 2,501,269 |

Nid oes unrhyw gredydwyr am fwy nag un flwyddyn, ac eithrio tocynnau llyfrau lle na ellir bod yn sicr pryd y byddant yn daladwy.

## 18. Cronfeydd Anghyfyngedig

| | Balans 1 Ebrill 2023 | Derbyniwyd | Talwyd | Trosglwyddiad a phensiwn | Balans 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cronfeydd Cyfalaf | **500,000** | – | – | – | **500,000** |
| Cronfeydd Incwm | | | | | |
| Cronfa Bensiwn | **–** | – | – | – | **–** |
| Cyngor | **150,918** | 1,345,347 | (1,322,294) | 4,034 | **178,005** |
| Canolfan Ddosbarthu | **457,373** | 3,162,094 | (3,132,884) | – | **486,583** |
| | **1,108,291** | 4,507,441 | (4,455,178) | 4,034 | **1,164,588** |

## 19. Cronfa Benodol

| | Balans 1 Ebrill 2023 | Derbyniwyd | Talwyd | Trosglwyddo | Balans 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru | 1,240,882 | 130,000 | (263,362) | – | **1,107,520** |
| Cronfa datblygiadau cyfrifiadurol | 230,694 | – | – | – | **230,694** |
| | 1,471,576 | 130,000 | (263,362) | – | **1,338,214** |

**20. Cronfeydd Cyfyngedig**

| | | Balans 1 Ebrill 2023 | Derbyniwyd | Talwyd | **Balans 31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | **£** |
| Cronfa Dr Dewi Davies | i | 61,959 | 1,254 | (300) | **63,513** |
| Cronfa Hybu Awduron | ii | 47,425 | – | (2,743) | **50,168** |
| Tlws Mary Vaughan Jones | iii | 4,849 | – | – | **4,849** |
| Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion | iv | 75,990 | 2,781 | 2,123 | **76,648** |
| Grantiau i'w dosbarthu | | | | | |
| Grantiau Cyhoeddi | v | – | 2,600,722 | 2,600,722 | **–** |
| Grant Ychwanegol i Gylchgronau | vi | 135,000 | 100,000 | 235,000 | **–** |
| Ffair Lyfrau Llundain | vii | 31,096 | – | 31,096 | **–** |
| Grant Argyfwng | viii | 103,518 | – | 103,518 | **–** |
| Grant Cynulleidfaoedd Newydd | ix | 400,000 | 500,000 | 400,000 | **500,000** |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | x | – | 160,378 | 160,378 | **–** |
| Adran y Gymraeg mewn Addysg | xi | 29,209 | – | 1,840 | **27,369** |
| Caru Darllen | xii | 429,195 | – | 94,357 | **334,838** |
| Calatalog | | – | 4,999 | 4,999 | **–** |
| Prosiect Rhyngom | xiii | (628) | 9,747 | 120,059 | **(110,940)** |
| Gŵyl Lenyddol Cheltenham | xiv | 1,237 | – | 797 | **440** |
| Dines Llên UNESCO | xv | – | 10,000 | 2,235 | **7,765** |
| The Reading Agency – Darllen yn Well | xvi | 57,616 | 216,807 | 146,088 | **128,335** |
| Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well | xvii | 3,978 | 43,477 | 47,455 | **–** |
| | | **1,380,444** | **3,650,165** | **3,947,624** | **1,082,985** |

i. **Cronfa Dr Dewi Davies**
Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu gwobrau ar gyfer cystadlaethau hybu darllen ymhlith plant a phobl ifanc.

ii. **Cronfa Hybu Awduron**
Cronfa gyffredinol i hybu ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.

iii. **Tlws Mary Vaughan Jones**
Mae'r gronfa'n cael ei defnyddio bob tair blynedd ar gyfer gwobrwyo un a wnaeth gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant dros nifer o flynyddoedd.

iv. **Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion**
Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu Gwobrau Tir na n-Og a gweithgareddau ym maes llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc.

v. **Grant Cyhoeddi Llywodraeth Cymru**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i bwrpasau penodol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredol a'r Llythyr Dyfarnu. Mae'r is-bwyllgorau datblygu cyhoeddi yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r cyllid yma, a hwy sydd yn rhoi sêl bendith ar unrhyw wariant o'r gronfa hon.

vi. **Grant Ychwanegol i Gylchgronau**
I helpu gyda chostau cynyddol ac i dreialu cylchgrawn newydd ym meysydd Hanes Cymru a Chwaraeon, dyfarnodd Cymru Greadigol £135,000 yn ychwanegol am flwyddyn i gyllideb y cylchgronau Cymraeg i'w ddosbarthu yn 2023/24. Derbyniwyd £100,000 ychwanegol hefyd gan Cymru Greadigol i'w ddosbarthu i'r cylchgronau Cymraeg ym mis Mawrth 2024.

vii. **Ffair Lyfrau Llundain**
Dyfarnodd Cymru Greadigol £80,000 i Cyhoeddi Cymru Publishing Wales i gynnal stondin yn Ffair Lyfrau Llundain ym mis Ebrill 2023. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid a chadarnhawyd cais i drosglwyddo arian sy'n weddill i'w ddefnyddio tuag at Ffair Lyfrau Llundain 2024.

viii. **Grant Argyfwng**
Gwnaethpwyd cais i Cymru Greadigol am gyllid i gefnogi'r sector llyfrau, a derbyniwyd £500,000 ym mis Chwefror 2023. Defnyddiwyd gweddill yr arian yn ystod 2023/24.

**ix. Grant Cynulleidfaoedd Newydd**

Dyfarnwyd £400,000 gan Gymru Greadigol tuag at ail raglen i gryfhau a chynnwys amrywiaeth yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Dyma restr o'r rhai sydd wedi derbyn arian grant:

| **Enwau'r buddiolwyr** | **Gwerth (£)** |
|---|---:|
| Nation.Cymru | 40,000 |
| Cwlwm | 33,000 |
| Romani Cultural and Arts Company | 30,000 |
| Firefly | 24,287 |
| Xcellence | 20,000 |
| Rily | 19,000 |
| Gwasg y Bwthyn | 18,660 |
| Golwg | 18,000 |
| Institute of Welsh Affairs | 16,835 |
| New Welsh Review | 16,000 |
| Lucent Dreaming | 15,000 |
| Just Another Poet | 15,000 |
| Buzz Culture | 15,000 |
| CFFI-Cymru | 10,000 |
| Gwasg Carreg Gwalch | 10,000 |
| Afterlight Comics | 10,000 |
| Y Cymro | 10,000 |
| The Paper | 10,000 |
| Damian Kerlin | 9,800 |
| Biosphere Gardens | 9,440 |
| Y Lolfa | 7,000 |
| Womens Publishing Wales | 7,000 |
| Poetry Wales | 6,250 |
| Lez Reads | 5,000 |
| Proud Little Muslims | 5,000 |
| Parthian | 5,000 |
| Modron | 4,975 |
| Nature Writing | 2,500 |
| Honno | 1,000 |
| Klust Music | 1,000 |
| Tom Goddard | 1,000 |
| Cyfieithu cais | 680 |
| Hyfforddiant i'r Cyhoeddwyr | 3,323 |
| Gwerthuso panel | 250 |
| **CYFANSWM** | **400,000** |

**x. Cynlluniau Hyrwyddo Darllen**

Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i gynlluniau hyrwyddo darllen (Stori Sydyn/ Quick Reads, Diwrnod y Llyfr a Sialens Ddarllen yr Haf). Mae £140,000 o'r cyllid yn cael ei ddyfarnu gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, £20,378 wedi'i ddyfarnu gan yr Is-adran Diwylliant, a'r gweddill yn dod fel cyfraniad allanol i'r prosiect gan Waterstones. Nid oedd unrhyw gyllid wedi'i gario drosodd.

**xi. Adran y Gymraeg mewn Addysg**

Mae'r arian sy'n weddill o'r rhaglen Iechyd Da yn cael eu defnyddio i ariannu'r Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen.

**xii. Caru Darllen**

Nod yr Adran Addysg yw rhoi llyfr yn anrheg i bob disgybl. Mae sawl haen i'r prosiect hwn, gan gynnwys rhoi llyfrau i fanciau bwyd, llyfrau unigol i ddisgyblion, tocynnau llyfrau i ddisgyblion (i ddewis eu llyfr eu hunain) a bocs o lyfrau i ysgolion. Erbyn hyn, mae'r llyfrau i gyd wedi eu rhannu i'r ysgolion a'r tocynnau llyfrau yn cael eu dychwelyd i'w cyfnewid gan y llyfrwerthwyr erbyn Mehefin 2024.

**xiii. Rhyngom**

Prosiect tair blynedd yw hwn i ddatblygu llyfrau i blant yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan yr Adran Addysg ac Adran y Gymraeg mewn Addysg gyda'r nod o gynhyrchu llyfrau sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

**xiv. Gwyliau Cheltenham**

Darparodd yr Ŵyl Lenyddol £1,500 tuag at y rhaglen 'Reading Teachers = Reading Pupils' er mwyn ei gyflwyno yng Nghymru. Mae peilot Athrawon Caru Darllen bellach ar waith a phrynwyd llyfrau a thalu am amser cyflenwol i geisio efelychu'r rhaglen RTRP yng Nghymru.

**xv. Dinas Llên UNESCO**

Nod Ymgyrch Dinas Llên yw sicrhau y bydd modd arddangos ein treftadaeth ddiwylliannol a llenyddol unigryw a chyfoethog o dan faner UNESCO, a thrwy hynny ennill sêl bendith statws rhyngwladol i ardal Aberystwyth a Cheredigion. Mae'r Cyngor Llyfrau yn arwain grŵp o sefydliadau lleol sydd wedi dod at ei gilydd i lunio'r cais. Derbyniwyd arian grant gan ARFOR ynghyd ag arian partneriaeth gan aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid i lunio'r cais.

**xvi. The Reading Agency – Darllen yn Well**

Cyhoeddwyd llyfrau ar gyfer yr arddegau yn ystod y flwyddyn hon a chafwyd cadarnhad gan y Reading Agency o gyllid ar gyfer pumed rhaglen (Dementia). Derbyniwyd y taliadau cyntaf a dechreuwyd y gwaith ar y rhaglen Dementia yn ystod 2023/24 a bydd y taliadau a'r gwaith yn cael eu cwblhau yn 2024/25.

Darperir yr arian gan The Reading Agency, sy'n elusen gofrestredig Brydeinig sy'n derbyn yr arian ar gyfer y prosiect hwn gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ei neilltuo ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi llyfrau yn ymwneud â Dementia, a bydd y cyfrolau ar gael mewn llyfrgelloedd ac i'w prynu.

**xvii. Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well**

Derbyniwyd grant o £45,000 tuag at y gwaith o hyrwyddo rhaglenni Darllen yn Well. Cynhyrchwyd deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y llyfrgelloedd eu hunain yn ogystal ag asedai digidol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol o dan yr ymgyrch 'Llyfrau er Lles'. Cefnogwyd hyn gyda peth hysbysebu hefyd. Bu cydweithio â phartneriaid allweddol i hyrwyddo a dosbarthu copiau o'r llyfrau.

**21. Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng y Cronfeydd**

| | Eiddo Parhaol/ Buddsoddiadau | Asedau Cyfredol Net | Credydwyr Hir Dymor | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Dr Dewi Davies | 63,513 | – | – | **63,513** |
| Cronfa Hybu Awduron | 50,168 | – | – | **50,168** |
| Tlws Mary Vaughan Jones | – | 4,849 | – | **4,849** |
| Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion | 76,648 | – | – | **76,648** |
| Rhyngom | – | (110,940) | – | **(110,940)** |
| Adran y Gymraeg mewn Addysg | – | 27,369 | – | **27,369** |
| Cynllun Caru Darllen | – | 334,838 | – | **334,838** |
| Grant Cynulleidfaoedd Newydd | – | 500,000 | – | **500,000** |
| Gŵyl Lenyddol Cheltenham | – | 440 | – | **440** |
| Dinas Llên UNESCO | – | 7,765 | – | **7,765** |
| The Reading Agency – Darllen yn Well | – | 128,335 | – | **128,335** |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | 190,329 | 892,656 | – | **1,082,985** |
| **Cronfa Benodol** | 1,167,142 | 171,072 | – | **1,338,214** |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | 253,007 | 911,581 | – | **1,164,588** |
| | **1,610,478** | **1,975,309** | **–** | **3,585,787** |

## 22. Cynllun Pensiwn

Mae'r elusen yn aelod o Gynllun Pensiwn Dyfed, sy'n gynllun budd-dal diffiniedig. Ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2023 roedd cyfraniadau'r cyflogwr yn 19.7% o'r tâl pensiynadwy.

Dyddiad y Prisiad Actiwaraidd llawn diwethaf: 31 Mawrth 2022

| **TYBIAETHAU ACTIWARAIDD** | | |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | Dechrau'r Flwyddyn | Diwedd y Flwyddyn |
| Graddfa chwyddiant | 2.70% | 2.7% |
| Graddfa cynnydd cyflogau | 4.20% | 4.2% |
| Graddfa cynnydd pensiynau | 2.80% | 2.8% |
| Cyfradd disgownt | 4.80% | 4.9% |

Mae ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a rhaniad yr asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2024. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer dechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2023.

| **Datganiad o Sefyllfa Ariannol yr Eitemau ar 31 Mawrth 2024** | |
|---|---|
| | £'000 |
| Gwerth yr Asedau ar y Farchnad | 15,804 |
| Dyledion | (12,051) |
| Gweddill (Diffyg) | 3,753 |

| **Newid yn y rhwymedigaeth buddion yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024** | |
|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion ar ddechrau'r flwyddyn | 2,484 |
| Cyfraniadau'r Cyflogwr | 252 |
| Llog Net | (125) |
| Costau gweinyddu | (5) |
| Cynnydd Actiwaraidd neu (Ddiffyg) | 1,147 |
| Rhwymedigaeth buddion ar ddiwedd y flwyddyn | 3,753 |

* Yn 2023 a 2024 cafodd yr ased ei gyfyngu i gydymffurfio â FRS 102 paragraff 28. Bydd endid yn cydnabod gwarged cynllun fel ased cynllun buddion diffiniedig dim ond i'r graddau ei fod yn gallu adennill y gwarged naill ai drwy lai o gyfraniadau yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Ni ystyriwyd bod y maen prawf hwn yn cael ei fodloni, felly ni chydnabuwyd ased.

**Datgeliadau Ychwanegol Asedau Pensiwn**

| | **Asedau ar 31.03.24 £000** | % | Asedau ar 31.03.23 £000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Soddgyfrannau | **11,505** | 74 | 10,657 | 74 |
| Bondiau Llywodraeth | **–** | 1 | 72 | 1 |
| Bondiau Eraill | **1,486** | 7 | 1,017 | 7 |
| Eiddo | **1,944** | 13 | 1,934 | 13 |
| Arian | **869** | 5 | 644 | 5 |
| Cyfanswm | **15,804** | | 14,324 | |
| Dyledion ar 31.03.24 | **12,051** | | 11,840 | |

## 23. Symudiad net yn y cronfeydd

| | **2024 £** | 2023 £ |
|---|---|---|
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | |
| Cronfeydd Incwm | | |
| Canolfan Ddosbarthu | **29,210** | 204,229 |
| Cyngor | **27,087** | 18,454 |
| Cronfa Bensiwn | **–** | 2,583,000 |
| Cronfa Benodol | **(133,362)** | 494,839 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | **(297,459)** | (50,815) |
| | **(374,524)** | 3,249,707 |

## 24. Cysoniad o incwm (gwariant) net i'r llif arian o weithgareddau gweithredu net

| | **2024 £** | 2023 £ |
|---|---|---|
| Incwm net am y flwyddyn | **(374,524)** | 3,249,707 |
| Addasiadau*:* | | |
| Gwariant cyfalaf | **(586,464)** | (389,530) |
| Dibrisiant | **154,487** | 30,907 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yng ngwerth y Buddsoddiadau | **(4,954)** | 8,150 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y cynllun buddion wedi'u diffinio | **–** | (2,583,000) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y stoc | **119,363** | (35,933) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y dyledwyr | **1,807** | 5,205,006 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd yn y credydwyr | **(992,612)** | (2,155,344) |
| Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu | **(1,682,897)** | 3,329,963 |

**25. Grwpiau Cysylltiedig**

Yn Nodyn 20, mae BAME Abertawe yn fuddiolwyr grantiau gwerth £39,000 fel rhan o'r cynllun Cynulleidfaoedd Newydd y mae Trysorydd y Cyngor Llyfrau, Alfred Oyekoya, yn ymddiriedolwr iddo.

Mae'r Athro Jane Aaron (Ymddiriedolwr yn y Cyngor Llyfrau) yn ymddiriedolwr Gwasg Honno, a dderbyniodd £71,070 mewn grantiau amrywiol (yn cynnwys £15,000 grant costau argyfwng (untro) a £6,000 o'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd).

Mae Lowri Ifor yn gweithio i Amgueddfa Cymru lle mae gan y Cyngor Llyfrau berthynas masnachu, ond nid yw'r trafodion yn cael eu rheoli gan Lowri mewn unrhyw fodd.

Mae gweithdrefnau llym ar waith i sicrhau, pan fo unigolyn yn gysylltiedig â pharti cysylltiedig tybiedig, nad yw'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ran o'r broses benderfynu ar ddyfarnu grantiau i'r endidau hyn.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan,
Aberystwyth, SY23 2JB

01970 624 151
post@llyfrau.cymru
llyfrau.cymru

Rhif Elusen Gofrestredig 1192269

Cymru Greadigol
Creative Wales